# Meini Prawf y Gronfa:

# Cronfa Effaith Cynnal

Bydd Cronfa Effaith Cynnal yn cefnogi ysgolion sefydledig a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Ngwynedd ac Ynys Môn i hyrwyddo addysg drwy wella'r cyfleusterau Technoleg Gwybodaeth sydd ar gael i fyfyrwyr y tu allan i'r cwricwlwm statudol.

Mae'r gronfa'n gwahodd ceisiadau am **brosiectau sy'n gysylltiedig â TG** nad ydynt yn rhan o ddyletswyddau cwricwlwm cenedlaethol statudol yr awdurdod lleol ar gyfer addysg.

## Grantiau ar gael

- Gall ysgolion wneud cais am grant o hyd at £10,000

Enghreifftiau o brosiect -

- Darparu adnodd ychwanegol sy'n gysylltiedig â TG i gefnogi cynnal sesiynau y tu allan i'r ysgol
- Cefnogi rhieni i sicrhau bod TG yn fwy hygyrch i fyfyrwyr gartref, i gynnwys hyfforddiant, gwybodaeth a chyngor ar gynnal ffiniau TG, cadw'n ddiogel ar-lein, seiberfwlio ac ati

## Pwy all ymgeisio?

Ysgolion yn ardal awdurdodau lleol Gwynedd ac Ynys Môn sy'n cynnal prosiectau sy'n gysylltiedig â TG sydd y tu allan i ddarpariaeth statudol.

Byddwn yn blaenoriaethu ysgolion a phrosiectau sy'n cynyddu hygyrchedd i'r rhai sy'n cael eu tanwasanaethu neu'n agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sy'n cefnogi unigolion o gefndiroedd nodwedd gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010 ac ysgolion sydd wedi'u lleoli yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ar draws Gwynedd ac Ynys Môn.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nôd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i fudiadau yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau, a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog ysgolion i feddwl am nid yn unig y gymuned y maent yn ei chefnogi, ond hefyd sut mae eu gwaith yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau gwirfoddol ac statudol eraill.  Hoffem i chi feddwl sut y gall eich ysgol gydweithio ag eraill i ychwanegu gwerth, gan weithio mewn partneriaeth yn hytrach nag mewn cystadleuaeth.  Yn eich cais, esboniwch eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol, hoffem weld sut mae ysgolion yn meddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau i weithio ochr yn ochr ag eraill.

## Sut i ymgeisio?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein sydd ar gael trwy ein gwefan.

Sylwer:

- Ni ddyfernir grantiau yn ôl-weithredol h.y. am gostau wedi'i wario cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, ac mae'r telerau ac amodau wedi'u llofnodi wedi'u dychwelyd
- Nid oes grantiau ar gael tuag at godi arian yn gyffredinol nac i gefnogi codi arian i grwpiau ac elusennau eraill
- Rhaid gwario'r grantiau'n llawn o fewn blwyddyn o dderbyn ein llythyr cynnig